GWEITHGAREDDAU

**** TYLINO * * DAWNSIO ***
**** CERDDORIAETH GREADIGOL****
****NOFIO* *SYMUD I GERDDORIAETH ****
****MABOLGAMPAU* *CHWARAEON* * GEMAU****
**** GWAITH COED A GARDDIO ****
**** CELF A CHREFFT * * COGINIO* *CWSIAU****

BARN DEFNYDDWYR

****Mae wedi bod yn waredigaeth i fi!***

* ***Rwy'n meddwl am beth alla' i ei wneud yn***

* ***hytrach na beth na alla' i ei wneud!***

* ***Bydd pobl yn siarad yn gall â fi !***

* ***Mae wedi rhoi hunan-barch i fi***

Rwy'n gweld nawr fod gen i rywbeth i'w gynnig.

* ***Mae'n rhoi hoe i'r wraig***

* ***Mae'n fendigedig!***

OES DIDDORDEB GYDA CHI?

Os hoffech chi ymuno â Gorwelion Newydd bydd yn rhaid trefnu i weithiwr cymdeithasol eich asesu.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch

SUE RYDER ar **01446 731935**

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Bro Morgannwg

GORWELION NEWYDD

Dyma fath hollol wahanol o Wasanaeth Dydd sy'n cael ei gynnig gan Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg er mwyn bodloni anghenion pobl sydd:-

- yn anabl iawn yn gorfforol ar hyd yr amser
- rhwng 18 a 65 oed
- yn byw yn y gymuned yn ardal Cyngor Bro Morgannwg

Bydd y gwasanaeth yn nwylo tîm o staff profiadol hyfforddedig sy'n gweithredu'n ôl Codau Ymarfer Adrannol a Chenedlaethol. Gellwch ddod o hyd iddo yn Hen Goleg, College Fields Close, Y Barri (wrth ymyl Old College Inn) - canolfan sydd hefyd yn boblogaidd gan nifer o sefydliadau lleol eraill sy'n helpu pobl anabl. Byddwn yn trefnu gweithgareddau yn y gymuned yn ogystal â'r Ganolfan. Nod y gwasanaeth fydd:

" Galluogi pobl anabl a sicrhau bod ganddynt gyfle cyfartal a phob rhyddid i ddewis, gweithredu'n annibynnol a datblygu'n bersonol"

Gobeithio y gallwn wella ansawdd bywydau pobl a rhoi cyfle iddynt weld

GORWELION NEWYDD

Rydym am i bawb fod yn fwy ymwybodol o anabledd yn ein cymunedau.

GALLWN EICH HELPU I

- fod yn fwy hyderus ac annibynnol
- fyw'n fwy cysurus ac iach a magu mwy o hunan-barch
- gadw a gwella eich sgiliau
- ddod o hyd i wybodaeth
- gwrdd â phobl a chreu cysylltiadau newydd
- gyrraedd eich nodau personol
- **FWYNHAU BYWYD**

DRWY –

- Gynllunio gwasanaeth dydd sy'n bodloni'ch union anghenion
- Roi gofal personol i chi
- Eich helpu i ddilyn gweithgareddau
- Drefnu gofal seibiant a helpu eich gofalwyr
- Drefnu trafnidiaeth ar eich cyfer sy'n hawdd ei defnyddio
- Eich cefnogi'n emosiynol
- Ddarparu prydau bwyd iachus ar eich cyfer
- Gynnig safle i chi sy'n hawdd ei ddefnyddio
- Drefnu gweithgareddau yn y gymuned
- Eich helpu i gyfathrebu
- Ddadlau o'ch plaid
- Drefnu gweithgareddau therapiwtig a chreadigol
- Eich helpu i fanteisio ar addysg a dod o hyd i swydd
- Gynnig gwybodaeth
- Gynnig therapi harddwch
- Drefnu gweithgareddau cymdeithasol
- **SICRHAU Y CEWCH DDIGON O HWYL**